

McCloud/ Sargeant – Rhwymedi Pensiynau Enghreifftiau o Fuddion

Gair am yr ohebiaeth

Mae'r ohebiaeth hon yn dilyn y daflen gwirio ffeithiau a luniwyd yn Chwefror 2022, sy'n ceisio ateb rhai cwestiynau cyffredin sydd gan yr aelodau am Rwymedi 2015. Mae'r daflen gwirio ffeithiau ar gael yn fpsmember.org/2015-remedy/2015-remedy-your-questions-answered

Mae'r ohebiaeth hon yn darparu amrywiaeth o enghreifftiau o fuddion yn seiliedig ar aelodaeth o wahanol gynlluniau, senarios a phroffiliau cyflogau. Dylai'r amrywiaeth o enghreifftiau o fuddion helpu i esbonio'r effaith a gaiff Rhwymedi 2015 ar fuddion aelodau. Nid yw'r ohebiaeth hon yn rhoi cyngor i'r aelodau. Y bwriad yw rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut caiff buddion eu cyfrifo o dan Rwymedi 2015.

Cyn i ni droi at yr enghreifftiau o fuddion, beth am atgoffa ein hunain o Rwymedi 2015 a'i effaith?

Nodyn atgoffa am Rwymedi 2015

Rhwymedi 2015 yw'r term swyddogol a ddefnyddir i ddisgrifio'r newidiadau sydd ar y gweill yng Nghynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Bydd y newidiadau'n tynnu'r gwahaniaethu ar sail oedran y dyfarnwyd ei fod wedi digwydd ers 2015.

Bydd y newidiadau a ddaw gyda Rhwymedi 2015 yn golygu'r canlynol:

- O 1 Ebrill 2022 ymlaen, bydd pob aelod gweithredol o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cronni buddion yn FPS 2015 (a elwir weithiau yn gynllun CARE 2015).
- Os yw Rhwymedi 2015 yn effeithio arnoch chi, bydd unrhyw wasanaeth a gronnyd yn FPS 2015 rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 ('cyfnod y rhwymedi') yn cael ei drosi'n wasanaeth yn eich cynllun cyflog terfynol blaenorol. Yr enw ar fuddion yn FPS 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi yw '**buddion diwygiedig**' a'r enw ar fuddion yn y cynllun terfynol perthnasol yw '**buddion gwaddol**'.
- Gan fod cyfraddau cyfraniadau yn wahanol ymhob cynllun, mae'n bosibl y bydd arnoch gyfraniadau ychwanegol pan gaiff eich gwasanaeth ei drosi, neu mae'n bosibl fod arian yn ddyledus i chi am eich bod wedi talu gormod o gyfraniadau.

- Pan fyddwch yn ymddeol, bydd angen i chi wneud penderfyniad ynglŷn â chymryd eich buddion gwaddol neu eich buddion diwygiedig am gyfnod y rhwymedi. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'tanategiad dewis gohiriedig'.
- Fel rhan o'r penderfyniad, bydd angen i chi ystyried unrhyw ailaddasiadau'r cyfraniadau sydd eu hangen.
- **Bydd unrhyw newid i'ch cyfraniadau hefyd yn cynnwys addasiadau ar gyfer llog a rhyddhad treth. Am y rheswm hwn, nid ydym wedi cynnwys cyfraniadau'r aelodau o fewn yr enghreifftiau.**
- Bydd angen i aelodau a oedd â diogelwch taprog ac a oedd wedi symud i FPS 2015 ar ôl 1 Ebrill 2015 ddewis rhwng buddion gwaddol neu fuddion gohiriedig ar gyfer holl gyfnod y rhwymedi.

I gael mwy o wybodaeth am Rwymedi 2015, gan gynnwys a yw'n effeithio arnoch chi, ewch i fpsmember.org/2015-remedy/2015-remedy-your-questions-answered

Cyflwyniad i enghreifftiau o fuddion

Mae'r gwahaniaethau rhwng y cynllun gwaddol a'r cynllun diwygiedig yn golygu bod y set o fuddion sydd orau i chi yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol chi a'r hyn rydych yn ei ffafrio, gan gynnwys pethau nad ydych yn eu gwybod eto, megis sut bydd eich cyflog yn newid yn y dyfodol a phryd y byddwch yn ymddeol.

Er mwyn i'r aelodau ddeall yn well, rydym wedi llunio detholiad o enghreifftiau o fuddion gan ddefnyddio gwahanol senarios a phroffiliau cyflogau ar gyfer set o aelodau enghreifftiol mewn gwasanaeth yn yr holl gynlluniau cyflog terfynol. Mae hyn yn dangos yr holl fuddion y byddai ganddynt hawl iddynt petaent yn ymddeol ar adeg cerrig milltir ymddeol allweddol, gan gymharu sefyllfa'r aelod petai'n dewis buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig am gyfnod y rhwymedi ar yr adeg honno. Mae'r enghreifftiau o fuddion yn dangos symiau'r pensiwn a'r cyfandaliad arian parod mwyaf ar wahanol oeddrannau ymddeol. Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn <https://fpsmember.org/sites/default/files/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-FPS-Wales.xlsx>

Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgrynnu. **Sylwch fod yr enghreifftiau hyn o'r buddion yn cael eu darparu er gwybodaeth yn unig. Does dim angen i chi weithredu ar unwaith. Dim ond ar adeg ymddeol y bydd angen i chi benderfynu a ydych am gymryd eich buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig.**

Bob blwyddyn, cewch ddatganiad buddion blynyddol gan eich gweinyddydd FPS. Pan fydd y rheoliadau pensiwn wedi'u sefydlu a'r systemau gweinyddu wedi'u diweddarau, gall gweinyddwyr ddechrau gweithio ar ddiweddarau'r datganiadau buddion i ddangos eich hawl i fuddion gwaddol a buddion diwygiedig. Bydd hyn yn gymorth i chi gael dealltwriaeth fwy clir o'r buddion sydd ar gael wrth nesáu at eich ymddeoliad.

Byddwch chi hefyd yn cael enghreifftiau o fuddion ar gyfer y buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig ar adeg ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr opsiwn mwyaf buddiol ar adeg pan fyddwch chi'n fwyaf sicr ynghylch beth mae gennych hawl iddo.

Enghreifftiau o fuddion

Rydym wedi llunio enghreifftiau o fuddion ar gyfer pum proffil aelod gwahanol:

1. [FPS 1992 – aelod wedi cyflawni llai na 30 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ebrill 2022](#)
2. [FPS 1992 – aelod wedi cyflawni 30 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ebrill 2022](#)
3. [FPS 2007 – aelod llawn amser](#)
4. [FPS 2007 – aelod rhan amser / wrth gefn](#)
5. [FPS 2007 ar gyfer aelodau arbennig \(RDS addasedig\)](#)

Bydd pob enghraifft o fuddion yn dangos dau broffil cyflog / datblygiad gyrfaf:

- Aelod sy'n aros ar lefel diffoddwr tân drwy gydol ei yrfa.
- Aelod sy'n datblygu o fod yn ddiffoddwr tân i fod yn rheolwr gwylyfa drwy gydol ei yrfa.

Ni allwn greu enghraifft ar gyfer amgylchiadau personol pob aelod. Felly, dylech ddarllen yr enghraifft sydd agosaf i'ch amgylchiadau chi – nid oes angen i chi ddarllen pob enghraifft os nad ydych eisiau.

Sut byddaf yn gwybod i ba gynllun gwaddol rwyf yn perthyn iddo?

Os ydych wedi ymuno â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân:

- Cyn 6 Ebrill 2006, byddwch yn aelod o **FPS 1992**.
- Ar neu ar ôl 6 Ebrill 2006 ond cyn 1 Ebrill 2015, byddwch yn aelod o **FPS 2007**.
- Os ydych yn ddiffoddwr tân wrth gefn, sydd â gwasanaeth rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006, mae'n bosibl eich bod yn **aelod arbennig** o **FPS 2007**.

Mae'r wybodaeth a ddarperir isod wedi'i cael ei pharatoi ar gyfer Bwrdd Cyngori Pensiwn y Diffoddwyr Tân Cymru (SABW) gan Barnett Waddingham LLP. Mae Barnett Waddingham LLP yn cael ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae'r ohebiaeth hon yn cydymffurfio â Safon Actiwaraid Dechnegol 100: Egwyddorion ar gyfer Gwaith Actiwaraid Technegol (TAS 100).



1. FPS 1992 – aelod wedi cyflawni llai na 30 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ebrill 2022

Manylion proffil aelod enghreifftiol:

Proffil aelod	
Dyddiad geni	31 Mawrth 1977
Oedran ar 31 Mawrth 2022	45 oed
Cynllun cyflog terfynol blaenorol	FPS 1992
Oedran ymuno â'r cynllun	25 oed
Gwasanaeth pensiynadwy ar 31 Mawrth 2022	20 mlynedd
Cyflog ar 31 Mawrth 2015	£29,000
Cyflog yn 50 oed	£34,161
Cyflog yn 55 oed	£36,801
Cyflog yn 60 oed	£39,645
Llawn amser neu ran amser	Llawn amser

Sut caiff pensiwn ei gyfrifo yn FPS 1992?

Cynllun cyflog terfynol yw FPS 1992. Caiff pensiynau eu gweithio allan ar sail aelodaeth o gynllun, cyflog a fformiwla sydd wedi'i gynnwys yn rheolau'r cynllun. Caiff pensiwn FPS 1992 ei gyfrifo fel a ganlyn:

(Cyfanswm y gwasanaeth pensiynadwy hyd at 20 mlynedd + cyfanswm y gwasanaeth pensiynadwy dros 20 mlynedd x 2) wedi'i gyfyngu i 40 mlynedd	/	60
X Gwasanaeth pensiynadwy yng nghynllun FPS 1992 cyn trosglwyddo i gynllun FPS 2015	/	Cyfanswm y gwasanaeth pensiynadwy yng nghynlluniau FPS 1992 ac FPS 2015 yn amodol ar uchafswm o 30 mlynedd
X Cyflog Pensiynadwy Cyfartalog		
=		Pensiwn blynyddol

Mae'r fformiwla uchod yn cynnwys diogelwch ar gyfer y rhai yr oedd disgwyl iddynt ennill cronïad dwbl petaent wedi aros yn FPS 1992. Mae addasiad wedi'i gynnwys i droi'n pro rata y budd cronïad dwbl disgwylïedig petai'r aelod wedi aros yn FPS 1992, gan y gwasanaeth a gronwyd yn FPS 1992 cyn symud i FPS 2015. Rhoddir enghraifft yn fpsmember.org/fps-2015/double-accrual-guarantee

Sut caiff pensiwn ei gyfrifo yn CARE 2015?

Cynllun Enillion Ailbrisiedig Cyfartaledd Gyrfa (CARE) yw FPS 2015. Caiff pensiynau eu gweithio allan ar sail cyfran o gyflog am bob blwyddyn o aelodaeth a'i hychwanegu at eich cyfrif pensiwn.

Mae pensiwn FPS 2015 yn cronni flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda swm yn cael ei ychwanegu at eich cyfrif wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

Cyflog pensiynadwy	/	61.4	=	Pensiwn a ychwanegwyd at eich cyfrif am y flwyddyn
--------------------	---	------	---	--

Yna, ar 1 Ebrill bob blwyddyn, caiff pensiwn cronedig ei ailbriso yn unol ag enillion wythnosol cyfartalog hyd nes ymddeol. Darperir enghraifft (gan ddefnyddio cyfradd cronni Lloegr, sef 1/59.7) er gwybodaeth yn fpsmember.org/fps-2015/how-my-pension-worked-out

Enghraifft 1

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos y pensiwn blynyddol a swm y cyfandaliad arian parod y mae gan aelod hawl iddo os yw'n aros ar lefel diffoddwr tân drwy gydol ei yrfa. Mae'n dangos y buddion sydd ar gael o 50 oed ymlaen, pan fo'r aelod yn gallu cymryd ei pensiwn FPS 1992 am y tro cyntaf (50 oed gydag o leiaf 25 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy) nes bydd yn 60 oed (pan ellir cymryd pensiwn FPS 2015 heb ei leihau).

Mae'r enghreifftiau'n rhagdybio'r canlynol:

- Mae'r aelod yn dewis cyfnewid y pensiwn mwyaf posibl am arian parod pan fydd yn ymddeol.
- Mae'r cynnydd yn y cyflog i'r aelod a'r cynnydd yn yr ailbrisiad ym mhensiwn FPS 2015 yr un fath (1.5% p.a.).
- Mae'r gyfradd gronni ar gyfer FPS 2015 yn aros ar 1/61.4.
- Mae'r ffactorau cyfnewid (y cyfraddau a ddefnyddir i gyfnewid pensiwn am arian parod) ar gyfer FPS 1992 fel y maent ar ddyddiad cyhoeddi'r ohebiaeth hon.
- Mae'r ffactorau ymddeoliad cynnar ar gyfer FPS 2015 fel y maent ar ddyddiad cyhoeddi'r ohebiaeth hon.

Oedran ymddeol rhagdybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol			Buddion diwygiedig		
		(Buddion FPS 1992 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)			(Buddion FPS 1992 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)		
		Pensiwn blynyddol £	Cyfan-daliad arian parod £	Pensiwn gohiriedig £	Pensiwn blynyddol £	Cyfan-daliad arian parod £	Pensiwn gohiriedig £
50	FPS 1992	12,383	30,744	-	8,049	19,984	-
50	FPS 2015	-	-	2,782*	-	-	6,676*
50	Cyfanswm	12,383	30,744	2,782*	8,049	19,984	6,676*
55	FPS 1992	12,267	89,548	-	7,973	58,206	-
55	FPS 2015	4,055	16,219	-	6,893	27,572	-
55	Cyfanswm	16,322	105,767	-	14,866	85,778	-
60	FPS 1992	13,215	85,456	-	8,590	55,547	-
60	FPS 2015	7,264	29,056	-	10,654	42,615	-
60	Cyfanswm	20,479	114,512	-	19,243	98,161	-

*Ni ellir talu buddion FPS 2015 cyn 55 oed felly byddent yn cael eu dal fel pensiwn gohiriedig.

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn fpsmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgyrnu.

Symiau pensiwn blynyddol

- Yn yr enghraifft uchod, mae cyfanswm y pensiwn, os dewisir y buddion gwaddol, yn fwy nag os dewisir y buddion diwygiedig ymhob oedran ymddeol. Y rheswm am hyn yw bod symiau pensiwn yr opsiwn gwaddol yn cynnwys cyfran uwch o fuddion FPS 1992, sy'n seiliedig ar groniad dwbl am wasanaeth pensiynadwy sy'n fwy nag 20 mlynedd (yn ddiabynnol ar uchafswm o 30 mlynedd), fel y diogelwyd gan y warant croniad dwbl.
- Gellir cymryd pensiwn FPS 1992 yn 50 oed gydag o leiaf 25 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy.
- Ni ellir cymryd pensiwn FPS 2015 cyn 55 oed. Mae hyn yn golygu os yw'r aelod yn dewis ymddeol cyn 55 oed y bydd ei bensiwn FPS 2015 yn cael ei ohirio nes mae'n 55 oed (neu'n ddiweddarach os yw'r aelod yn dymuno).
- Mae gan FPS 2015 oedran pensiwn arferol o 60 oed i aelodau gweithredol ac oedran Pensiwn Gwladol i aelodau gohiriedig. Os yw pensiwn FPS 2015 yn cael ei gymryd cyn oedran pensiwn arferol, caiff y pensiwn ei leihau i adlewyrchu'r ffaith y bydd yn cael ei dalu am fwy o amser na'r disgwyl.
- I aelodau gweithredol, mae gostyngiad ymddeoliad cynnar o 10% yn gymwys i bensiwn FPS 2015 yn 55 oed. Caiff y gostyngiad ei leihau 2% bob blwyddyn nes nad oes gostyngiad yn gymwys yn 60 oed. Gweler gov.wales/sites/default/files/publications/2020-01/w-frsc201918-annex-6.pdf i gael mwy o wybodaeth. Mae ffactorau'r gostyngiad ymddeoliad cynnar i aelodau gohiriedig yn uwch.

Symiau cyfandaliad arian parod

- Yn yr enghraifft, mae symiau cyfandaliad arian parod yr opsiwn gwaddol hefyd yn fwy na symiau'r cyfandaliad arian parod diwygiedig ymhob oedran ymddeol a ddangosir. Mae dau brif reswm dros hyn:
 - Mae mwy o bensiwn gwaddol i'w gyfnewid am gyfandaliad arian parod; ac
 - Mae'r ffactorau cyfnewid ar gyfer FPS 1992 yn uwch, sy'n golygu bod yr aelod yn cael mwy o swm o gyfandaliad arian parod am bob £1 o bensiwn blynyddol a gaiff ei ildio. Er enghraifft, yn 55 oed, y ffactor cyfnewid sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer FPS 1992 yw 21.9 tra mai'r ffactor cyfnewid FPS 2015 yw 12. Mae hyn yn golygu bod yr aelod yn derbyn £21.90 o arian parod am bob £1 o bensiwn FPS 1992 a gaiff ei ildio, o gymharu â £12 o arian parod am bob £1 o bensiwn FPS 2015 a gaiff ei ildio.

- Mae cynnydd sylweddol yn swm y cyfandaliad arian parod yn 55 oed. Mae dau brif reswm dros hyn:
 - Yn achos yr aelod hwn, mae'r terfyn ar uchafswm y cyfandaliad y gellir ei gymryd ar gyfer buddion FPS 1992 yn cynyddu'n fawr. Mae aelodau sy'n ymddeol yn iau na 55 oed ac sydd â llai na 30 mlynedd o wasanaeth yn derbyn cyfandaliad sydd â chap o 2.25 gwaith eu pensiwn blynyddol. Caiff y cyfyngiad hwn ei dynnu ymaith pan yw'n 55 oed neu ar ôl cwblhau 30 mlynedd o wasanaeth (os yw'n gynharach). Yna, gellir cyfnewid uchafswm o un chwarter (25%) o bensiwn FPS 1992 am gyfandaliad arian parod.
 - Mae pensiwn FPS 2015 yn dod i daliad gan ragdybio bod yr uchafswm o un chwarter (25%) yn cael ei gyfnewid am gyfandaliad arian parod.
- Sylwch fod y ffactorau cyfnewid sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer FPS 1992 yn gostwng wrth i'r aelod heneiddio (i adlewyrchu'r ffaith fod disgwyl i'r pensiwn gael ei dalu am gyfnod byrrach) ond yn parhau ar 12 ar gyfer pob oedran yn FPS 2015.
- Nid yw'r enghreifftiau'n ystyried unrhyw dâl treth a allai fod yn gymwys am fynd y tu hwnt i derfyn CThEM ar arian parod di-dreth. Mae'r terfyn yn fwyaf tebygol o gael ei groesi os yw'r ffactor cyfnewid yn fwy nag 20.
- I gael mwy o wybodaeth, ewch i fpsmember.org/fps-1992/how-much-lump-sum-can-i-take

Cyfraniadau'r gweithiwr

Wrth ddewis rhwng buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig, mae'n bosibl y bydd cyfraniadau ychwanegol yn daladwy gan yr aelod, neu ad-daliad efallai, gan ddiabynnu ar y gwahaniaeth rhwng y cyfraniadau a dalwyd eisoes a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r buddion a ddewisir.

Amgylchiadau unigol

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r opsiwn gwaddol i gyn-aelodau o FPS 1992 yn darparu buddion uwch na'r opsiwn diwygiedig. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd dewis rhwng derbyn buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig ar gyfer cyfnod y rhwymedi yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol chi.

Er enghraifft, er symlrwydd, rydym wedi cadw'r cyflog pensiynadwy cyfartalog ar gyfer FPS 1992 a'r cyflog pensiynadwy ar gyfer FPS 2015 yr un fath ar gyfer yr enghraifft hon, er mae'n bosibl fod eich cyflog pensiynadwy chi yn FPS 2015 yn cynnwys elfennau ychwanegol sy'n cyfrannu tuag at bensiwn uwch.

At hynny, mae pensiwn FPS 2015 a enillwyd eisoes yn cynyddu bob blwyddyn yn unol ag enillion wythnosol cyfartalog. Os yw'r enillion wythnosol cyfartalog yn uwch na'r cynnydd yn y cyflog dros gyfnod o amser, gallai hyn arwain at fuddion diwygiedig uwch. Er mwyn i hyn ddigwydd, byddai angen i aelod dderbyn cynnydd yn ei gyflog (gan gynnwys cynnydd dyrchafu) sy'n is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol dros gyfnod hir o amser.

Os caiff aelod ei ddyrchafu yn ystod cyfnod y rhwymedi a hyd at ei ymddeoliad, bydd unrhyw gynnydd i gyflog yr aelod yn cynyddu ar gyfer y buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd unrhyw gynnydd dyrchafu yn tueddu i gynyddu'r buddion gwaddol yn fwy na'r buddion diwygiedig. Caiff hyn ei ddangos yn enghraifft 2 isod.

Y rheswm am hyn yw bod buddion FPS 1992 yn seiliedig ar gyflog terfynol ar adeg ymddeol. Fel cynllun cyflog terfynol, mae FPS 1992 yn trin yr aelod fel pe

bai wedi ennill y cyflog terfynol uchaf ymhob blwyddyn o wasanaeth. Fodd bynnag, mae FPS 2015 yn ystyried cyflogau a enillwyd yn unrhyw flwyddyn benodol a dim ond ar flynyddoedd y dyfodol yr effeithir pan fo cynnydd yn y cyflog dyrchafu.

Efallai y byddwch eisieu cymryd ystyriaethau eraill ar adeg ymddeol, megis y buddion marwolaeth sy'n daladwy o dan gynlluniau FPS 1992 ac FPS 2015. Er enghraifft, dim ond i barau priod neu bartneriaid sifil y caiff buddion goroeswr eu talu yn FPS 1992, tra bo FPS 2015 yn darparu pensiwn i bartneriaid di-briod. Mae FPS 2015 hefyd yn darparu gwarant pensiwn, ond nid yw FPS 1992 yn gwneud hynny.

Byddwch yn derbyn enghreifftiau o fuddion ar gyfer eich buddion gwaddol a buddion diwygiedig ar adeg ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr opsiwn mwyaf buddiol ar adeg pan fyddwch yn fwyaf sicr ynghylch beth mae gennych hawl iddo.

Enghraifft 2

Mae'r enghraifft hon yn seiliedig ar yr un meini prawf â'r enghraifft flaenorol ond mae'n rhagdybio bod yr aelod yn cael ei ddyrchafu yn ystod cyfnod y rhwymedi a hyd at ei ymddeoliad. Pwrpas hyn yw dangos yr effaith y gall cynnydd mewn cyflog dyrchafu ei chael ar y gwahaniaeth rhwng buddion gwaddol a buddion diwygiedig.

Rydym wedi rhagdybio y bydd Diffoddwr Tân (cymwys) ar 1 Ebrill 2015 yn derbyn y dyrchafiadau canlynol a'r cynnydd ychwanegol yn ei gyflog:

Swydd	Dyddiad dyrchafiad	Oedran ar adeg dyrchafu	Cynnydd a gymhwyswyd
Rheolwr criw (datblygu)	1 Ebrill 2019	42	6.3%
Rheolwr criw (cymwys)	1 Ebrill 2021	44	4.3%
Rheolwr gwylfa (datblygu)	1 Ebrill 2026	49	2.2%
Rheolwr gwylfa (cymwys A)	1 Ebrill 2028	51	2.8%
Rheolwr gwylfa (cymwys B)	1 Ebrill 2031	54	6.5%

Gan ddefnyddio'r cynnydd dyrchafu ar y dudalen flaenorol, rhoddir yr enghraifft wedi'i ail-gyfrifo isod:

Oedran ymddeol rhag-dybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol (Buddion FPS 1992 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)			Buddion diwygiedig (Buddion FPS 1992 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)		
		Pensiwn blynyddol £	Cyfan-daliad arian parod £	Pensiwn gohiriedig £	Pensiwn blynyddol £	Cyfan-daliad arian parod £	Pensiwn gohiriedig £
50	FPS 1992	14,026	34,823	-	9,117	22,635	-
50	FPS 2015	-	-	3,097*	-	-	7,122*
50	Cyfanswm	14,026	34,823	3,097*	9,117	22,635	7,122*
55	FPS 1992	15,208	111,016	-	9,885	72,160	-
55	FPS 2015	4,635	18,541	-	7,568	30,274	-
55	Cyfanswm	19,843	129,557	-	17,453	102,434	-
60	FPS 1992	16,383	105,943	-	10,649	68,863	-
60	FPS 2015	8,538	34,151	-	12,041	48,164	-
60	Cyfanswm	24,921	140,094	-	22,690	117,027	-

*Ni ellir talu buddion FPS 2015 cyn 55 oed felly byddent yn cael eu dal fel pensiwn gohiriedig.

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn fpsmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgrynnu.

Symiau pensiwn blynyddol

Fel y disgwylir, mae'r buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig yn uwch nag yn yr enghraifft gyntaf gyda'r cynnydd dyrchafu ychwanegol.

Fodd bynnag, mae cyfanswm y symiau pensiwn os dewisir yr opsiwn gwaddol wedi dangos cynnydd uwch yn y buddion na'r opsiwn diwygiedig. Y rheswm am hyn yw bod buddion FPS 1992 yn seiliedig ar y cyflog terfynol ar adeg ymddeol.

Fel cynllun cyflog terfynol, mae FPS 1992 yn trin yr aelod fel pe bai wedi ennill y cyflog terfynol uwch ymhob blwyddyn o wasanaeth. Fodd bynnag, mae FPS 2015 yn ystyried cyflogau a enillwyd ymhob blwyddyn benodol a dim ond ar flynyddoedd y dyfodol yr effeithir pan fo cynnydd yn y cyflog dyrchafu.

Symiau cyfandaliad arian parod

Mae symiau cyfandaliad arian parod gwaddol wedi cynyddu'n gynt na symiau cyfandaliad arian parod diwygiedig oherwydd bod symiau pensiwn uwch ar gael i'w cyfnewid am arian parod a ffactorau cyfnewid uwch.

Amgylchiadau unigol

Bydd effaith cynnydd dyrchafu yn dibynnu ar eich llwybr gyrfa chi eich hun, a hynny o ran nifer y dyrchafiadau a phryd maent yn digwydd. Mae'n fwy na thebyg y bydd unrhyw gynnydd dyrchafu yn tueddu i gynyddu buddion gwaddol yn fwy na buddion diwygiedig oherwydd y rhesymau a roddir uchod.



2. FPS 1992 – aelod wedi cyflawni 30 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy cyn 1 Ebrill 2022

Manylion proffil aelod enghreifftiol:

Proffil aelod

Dyddiad geni	31 Mawrth 1972
Oedran ar 31 Mawrth 2022	50 oed
Cynllun cyflog terfynol blaenorol	FPS 1992
Oedran ymuno â'r cynllun	20 oed
Gwasanaeth pensiynadwy ar 31 Mawrth 2022	30 oed
Cyflog ar 31 Mawrth 2015	£29,000
Cyflog yn 50 oed	£31,710
Cyflog yn 55 oed	£34,161
Cyflog yn 60 oed	£36,801
Llawn amser neu ran amser	Llawn amser

Sut caiff pensiwn ei gyfrifo yn FPS 1992?

Cynllun cyflog terfynol yw FPS 1992. Caiff pensiynau eu gweithio allan ar sail aelodaeth o gynllun, cyflog a fformiwla sydd wedi'i gynnwys yn rheolau'r cynllun. Caiff pensiwn FPS 1992 ei gyfrifo fel a ganlyn:

(Cyfanswm y gwasanaeth pensiynadwy hyd at 20 mlynedd + cyfanswm y gwasanaeth pensiynadwy dros 20 mlynedd x 2) cyfyngedig i 40 mlynedd	/	60
X Gwasanaeth pensiynadwy yng nghynllun FPS 1992 cyn trosglwyddo i gynllun FPS 2015	/	Cyfanswm y gwasanaeth pensiynadwy yng nghynlluniau FPS 1992 ac FPS 2015, yn ddibynnol ar uchafswm o 30 mlynedd
X Cyflog Pensiynadwy Cyfartalog		
= Pensiwn blyneddol		

Mae'r fformiwla uchod yn cynnwys diogelwch ar gyfer y rhai yr oedd disgwyl iddynt ennill cronïad dwbl petaent wedi aros yn FPS 1992. Mae addasiad wedi'i gynnwys i droi'n pro rata y budd cronïad dwbl disgwylïedig petai'r aelod wedi aros yn FPS 1992, gan y gwasanaeth a gronnyd yn FPS 1992 cyn symud i FPS 2015. Rhoddir enghraifft yn psmember.org/fps-2015/double-accrual-guarantee

Ar gyfer y buddion gwaddol, mae'r aelod yn yr enghraifft hon wedi cyflawni'r gwasanaeth pensiynadwy uchaf posibl o 30 mlynedd yn FPS 1992 felly nid yw'r warant cronïad dwbl yn gymwys mwyach.

Ar gyfer y buddion diwygiedig, mae'r warant cronïad dwbl yn parhau i fod yn gymwys wrth ystyried FPS 1992 oherwydd rhagdybir bod yr aelod wedi symud i FPS 2015 ar 1 Ebrill 2015.

Sut caiff pensiwn ei gyfrifo yn FPS 2015?

Cynllun Enillion Ailbrisiedig Cyfartaledd Gyrfa (CARE) yw FPS 2015. Caiff pensiynau eu gweithio allan ar sail cyfran o gyflog am bob blwyddyn o aelodaeth, a'i hychwanegu at eich cyfrif pensiwn.

Mae pensiwn FPS 2015 yn cronni flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda swm yn cael ei ychwanegu at eich cyfrif wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

Cyflog pensiynadwy	/	61.4	=	Pensiwn a ychwanegwyd at eich cyfrif am y flwyddyn
--------------------	---	------	---	--

Yna, ar 1 Ebrill bob blwyddyn, caiff y pensiwn cronedig ei ailbriso yn unol â'r enillion wythnosol cyfartalog nes ymddeol. Darperir enghraifft (gan ddefnyddio'r gyfradd gronni o 1/59.7 ar gyfer y cynllun yn Lloegr) er gwybodaeth yn fpsmember.org/fps-2015/how-my-pension-worked-out

Enghraifft 1

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos yr hawl i pensiwn blynyddol ac uchafswm y cyfandaliad arian parod i aelod sy'n aros ar lefel diffoddwr tân drwy gydol ei yrfa. Mae'n dangos y buddion sydd ar gael o 50 oed ymlaen, pan fo'r aelod yn gallu cymryd ei pensiwn FPS 1992 am y tro cyntaf (50 oed gydag o leiaf 25 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy) nes bydd yn 60 oed (pan ellir cymryd pensiwn FPS 2015 heb ei leihau).

Mae'r enghreifftiau'n rhagdybio'r canlynol:

- Mae'r aelod yn dewis cyfnewid y pensiwn mwyaf posibl am arian parod pan mae'n ymddeol.
- Mae'r cynnydd cyflog i'r aelod a chynnydd yr ailbrisiad ar gyfer pensiwn FPS 2015 yr un fath (1.5% p.a.).
- Mae'r gyfradd gronni ar gyfer FPS 2015 yn aros ar 1/61.4.
- Mae'r ffactorau cyfnewid (y cyfraddau a ddefnyddir i gyfnewid pensiwn am arian parod) ar gyfer FPS 1992 fel y maent ar ddyddiad cyhoeddi'r ohebiaeth hon.
- Mae'r ffactorau ymddeoliad cynnar ar gyfer FPS 2015 fel y maent ar ddyddiad cyhoeddi'r ohebiaeth hon.

Oedran ymddeol rhagdybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol (Buddion FPS 1992 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)			Buddion diwygiedig (Buddion FPS 1992 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion FPS 2015 hyd at 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)		
		Pensiwn blynyddol £	Cyfan-daliad arian parod £	Pensiwn gohiriedig £	Pensiwn blynyddol £	Cyfan-daliad arian parod £	Pensiwn gohiriedig £
50	FPS 1992	15,855	126,839	-	12,155	97,244	-
50	FPS 2015	-	-	-	-	-	3,615*
50	Cyfanswm	15,855	126,839	-	12,155	97,244	3,615*
55	FPS 1992	17,080	124,686	-	13,095	95,593	-
55	FPS 2015	1,882	7,528	-	4,517	18,066	-
55	Cyfanswm	18,962	132,213	-	17,611	113,659	-
60	FPS 1992	18,400	118,989	-	14,107	91,225	-
60	FPS 2015	4,495	17,981	-	7,642	30,567	-
60	Cyfanswm	22,895	136,969	-	21,749	121,792	-

*Ni ellir talu buddion FPS 2015 cyn 55 oed felly byddent yn cael eu dal fel pensiwn gohiriedig .

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn fpsmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgyrnu.

Symiau pensiwn blynyddol

- Yn yr enghraifft uchod, mae cyfanswm y symiau pensiwn, os dewisir y buddion gwaddol, yn uwch nag os dewisir y buddion diwygiedig ymhob oedran ymddeol. Y rheswm dros hyn yw bod symiau'r pensiwn opsiwn gwaddol yn cynnwys cyfran uwch o fuddion FPS 1992, sy'n seiliedig ar groniad dwbl ar gyfer gwasanaeth pensiynadwy sy'n fwy nag 20 mlynedd (yn amodol ar uchafswm o 30 mlynedd), fel y diogelir gan y warant croniad dwbl.
- Ni ellir cymryd pensiwn FPS 2015 cyn 55 oed. Mae hyn yn golygu os yw'r aelod yn dewis ymddeol cyn 55 oed y bydd ei pensiwn FPS 2015 yn cael ei ohirio nes bydd yn 55 oed (neu'n hwyrach os yw'r aelod yn dymuno).
- Mae gan FPS 2015 oedran pensiwn arferol o 60 oed i aelodau gweithredol ac oedran Pensiwn Gwladol i aelodau gohiriedig. Os cymerir pensiwn FPS 2015 cyn oedran pensiwn arferol, caiff y pensiwn ei leihau i adlewyrchu'r ffaith y bydd yn cael ei dalu am fwy o amser na'r disgwyl.
- I aelodau gweithredol, caiff gostyngiad ymddeoliad cynnar o 10% ei gymhwyso i pensiwn FPS 2015 yn 55 oed. Caiff y gostyngiad ei leihau 2% bob blwyddyn nes nad oed gostyngiad yn gymwys yn 60 oed. Gweler gov.wales/sites/default/files/publications/2020-01/w-frsc201918-annex-6.pdf i gael mwy o wybodaeth. Mae'r ffactorau gostyngiad ymddeoliad cynnar i aelodau gohiriedig yn uwch

Symiau cyfandaliadau arian parod

- Yn yr enghraifft, mae symiau cyfandaliad arian parod yr opsiwn gwaddol hefyd yn uwch na symiau cyfandaliad arian parod yr opsiwn gohiriedig ymhob oedran ymddeol a ddangosir. Mae dau brif reswm dros hyn:
 - Mae mwy o'r pensiwn gwaddol i'w gyfnewid am gyfandaliad arian parod; ac
 - Mae'r ffactorau cyfnewid ar gyfer FPS 1992 yn uwch, felly mae'r aelod yn derbyn mwy o gyfandaliad arian parod am bob £1 o pensiwn blynyddol a gaiff ei ildio. Er enghraifft, yn 55 oed, y ffactor cyfnewid sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer FPS 1992 yw 21.9 tra mai'r ffactor cyfnewid ar gyfer FPS 2015 yw 12. Mae hyn yn golygu bod yr aelod yn derbyn £21.90 o arian parod am bob £1 o pensiwn FPS 1992 a gaiff ei ildio, o gymharu â £12 o arian parod am bob £1 o pensiwn FPS 2015 a gaiff ei ildio.
-

- Nid yw'r enghreifftiau yn ystyried unrhyw dâl treth a allai fod yn gymwys am fynd y tu hwnt i derfyn CThEM ar arian parod di-dreth. Mae'r terfyn yn fwyaf tebygol o fod yn uwch os yw'r ffactor cyfnewid yn fwy nag 20.
- I gael mwy o wybodaeth, ewch i fpsmember.org/fps-1992/how-much-lump-sum-can-i-take

Cyfraniadau'r gweithiwr

Wrth ddewis y buddion gwaddol neu'r buddion diwygiedig, mae'n bosibl y bydd cyfraniadau ychwanegol yn daladwy gan yr aelod, neu ad-daliad efallai, yn dibynnu ar y gwahaniaeth rhwng y cyfraniadau a dalwyd eisoes a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r buddion a ddewiswyd.

Amgylchiadau unigol

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r opsiwn gwaddol ar gyfer cyn-aelodau o FPS 1992 yn darparu buddion uwch na'r opsiwn diwygiedig. Fodd bynnag, dylid nodi bod eich dewis i dderbyn buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol.

Er enghraifft, er symlrwydd, rydym wedi cadw'r cyflog pensiynadwy cyfartalog ar gyfer FPS 1992 a'r cyflog pensiynadwy ar gyfer FPS 2015 yr un fath ar gyfer yr enghraifft hon er mae'n bosib yn eich achos chi fod eich cyflog pensiynadwy yn FPS 2015 yn cynnwys elfennau ychwanegol sy'n cyfrannu tuag at bensiwn uwch.

At hynny, mae pensiwn FPS 2015 a enillwyd eisoes yn cael ei gynyddu bob blwyddyn yn unol ag enillion wythnosol cyfartalog. Os yw'r enillion wythnosol cyfartalog yn uwch na'r cynnydd cyflog dros gyfnod o amser, gallai hyn arwain at fuddion diwygiedig uwch. Er mwyn i hyn ddigwydd, byddai angen i aelod dderbyn cynnydd cyflog (gan gynnwys unrhyw gynnydd dyrchafu) sy'n is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol dros gyfnod hir o amser.

Os caiff yr aelod ei ddyrchafu dros gyfnod y rhwymedi a hyd at ei ymddeoliad, bydd unrhyw gynnydd yng nghyflog yr aelod yn cynyddu'r buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig, ond mae'n debygol y bydd unrhyw gynnydd dyrchafu yn tueddu i gynyddu'r buddion gwaddol yn fwy na'r buddion diwygiedig. Caiff hyn ei ddangos yn enghraifft 2 ar y dudalen nesaf.

Y rheswm dros hyn yw'r ffaith fod buddion FPS 1992 yn seiliedig ar gyflog terfynol ar adeg ymddeol. Fel cynllun cyflog terfynol, mae FPS 1992 yn trin yr aelod fel pe bai wedi ennill y cyflog terfynol uchaf ymhob blwyddyn o wasanaeth.

Fodd bynnag, mae FPS 2015 yn ystyried y cyflogau a enillwyd mewn unrhyw flwyddyn benodol a dim ond ar flynyddoedd yn y dyfodol yr effeithir pan fo cynnydd yn y cyflog dyrchafu.

Efallai y byddwch eisieu cymryd ystyriaethau eraill ar adeg ymddeol, megis y buddion marwolaeth sy'n daladwy o dan gynlluniau FPS 1992 ac FPS 2015. Er enghraifft, dim ond i barau priod neu bartneriaid sifil y caiff buddion goroeswr eu talu yn FPS 1992, tra bo FPS 2015 yn darparu pensiwn i bartneriaid di-briod. Mae FPS 2015 hefyd yn darparu gwarant pensiwn, ond nid yw FPS 1992 yn gwneud hynny.

Byddwch yn derbyn enghreifftiau o fuddion ar gyfer eich buddion gwaddol a'ch buddion diwygiedig ar adeg ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr opsiwn mwyaf buddiol ar adeg pan fyddwch yn fwyaf sicr beth mae gennych hawl iddo.

Enghraifft 2

Mae'r enghraifft hon yn seiliedig ar yr un meini prawf â'r enghraifft flaenorol ond mae'n rhagdybio bod yr aelod yn cael ei ddirchafu dros gyfnod y rhwymedi a hyd at ymddeoliad. Pwrpas hyn yw dangos yr effaith y gall cyflog dyrchafu ei chael ar y gwahaniaeth rhwng buddion gwaddol a buddion diwygiedig.

Rydym wedi rhagdybio y bydd Diffoddwr Tân (cymwys) ar 1 Ebrill 2015 yn derbyn y dyrchafiadau canlynol a chynyddiadau ychwanegol i'w gyflog:

Swydd	Dyddiad dyrchafiad	Oedran ar adeg dyrchafiad	Cynnydd a gymhwyswyd
Rheolwr criw (datblygu)	1 Ebrill 2019	47	6.3%
Rheolwr criw (cymwys)	1 Ebrill 2021	49	4.3%
Rheolwr gwylfa (datblygu)	1 Ebrill 2026	54	2.2%
Rheolwr gwylfa (cymwys A)	1 Ebrill 2028	56	2.8%
Rheolwr gwylfa (cymwys B)	1 Ebrill 2031	59	6.5%

Gan ddefnyddio'r cynnydd dyrchafu uchod, rhoddir yr enghreifftiau o fuddion wedi'u hailbrisio isod:

Oedran ymddeol rhagdybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol (Buddion FPS 1992 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)			Buddion diwygiedig (Buddion FPS 1992 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)		
		Pensiwn blynyddol £	Cyfanswm arian parod £	Pensiwn gohiriedig £	Pensiwn blynyddol £	Cyfanswm arian parod £	Pensiwn gohiriedig £
50	FPS 1992	17,577	140,619	-	13,476	107,808	-
50	FPS 2015	-	-	-	-	-	3,736*
50	Cyfanswm	17,577	140,619	-	13,476	107,808	3,736*
55	FPS 1992	19,346	141,225	-	14,832	108,272	-
55	FPS 2015	2,095	8,381	-	4,818	19,273	-
55	Cyfanswm	21,441	149,606	-	19,650	127,545	-
60	FPS 1992	22,811	147,514	-	17,489	113,094	-
60	FPS 2015	5,139	20,555	-	8,391	33,563	-
60	Cyfanswm	27,950	168,070	-	25,880	146,657	-

*Ni ellir talu buddion FPS 2015 cyn 55 oed felly byddent yn cael eu dal fel pensiwn gohiriedig .

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn fpsmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgrynnu.

Symiau pensiwn blynyddol

Fel y disgwylir, mae'r buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig yn uwch nag yn yr enghraifft flaenorol gyda'r cynnydd dyrchafu ychwanegol.

Fodd bynnag, mae cyfanswm y symiau pensiwn os dewisir yr opsiwn gwaddol wedi dangos mwy o gynnydd yn y buddion na'r opsiwn diwygiedig. Y rheswm dros hyn yw bod buddion FPS 1992 yn seiliedig ar gyflog terfynol ar adeg ymddeol.

Fel cynllun cyflog terfynol, mae FPS 1992 yn trin yr aelod fel pe bai wedi ennill y cyflog terfynol uwch ymhob blwyddyn o wasanaeth. Fodd bynnag, mae FPS 2015 yn ystyried cyflogau a enillwyd mewn unrhyw flwyddyn benodol a dim ond ar flynyddoedd y dyfodol yr effeithir pan fo cynnydd yn y cyflog dyrchafu.

Symiau cyfandaliad arian parod

Mae'r symiau cyfandaliad arian parod gwaddol wedi cynyddu'n gynt na symiau cyfandaliad arian parod diwygiedig am fod symiau pensiwn uwch ar gael i'w cyfnewid am arian parod a ffactorau cyfnewid uwch.

Amgylchiadau unigol

Bydd effaith y cynnydd dyrchafu yn dibynnu ar eich llwybr gyrfa chi eich hun, a hynny o ran nifer y dyrchafiadau a phryd maent yn digwydd. Mae'n fwy na thebyg y bydd unrhyw gynnydd dyrchafu yn tueddu i gynyddu buddion gwaddol yn fwy na buddion diwygiedig oherwydd y rhesymau a roddir uchod.



3. FPS 2007 – aelod llawn amser

Manylion proffil aelod enghreifftiol:

Proffil aelod	
Dyddiad geni	31 Mawrth 1982
Oedran ar 31 Mawrth 2022	40 oed
Cynllun cyflog terfynol blaenorol	FPS 2007
Oedran ymuno â'r cynllun	25 oed
Cyflog pensiynadwy ar 31 Mawrth 2022	15 mlynedd
Cyflog ar 31 Mawrth 2015	£29,000
Cyflog yn 55 oed	£39,645
Cyflog yn 60 oed	£42,709
Llawn amser neu ran amser	Llawn amser

Sut caiff pensiwn ei gyfrifo yn FPS 2007?

Cynllun cyflog terfynol yw FPS 2007. Caiff pensiynau eu gweithio allan ar sail aelodaeth o gynllun, cyflog a fformiwla sydd yn rheolau'r cynllun. Caiff FPS 2007 ei gyfrifo fel a ganlyn:

Gwasanaeth pensiynadwy	X	Cyflog Pensiynadwy Cyfartalog	/	60	=	Pensiwn blyneddol
------------------------	---	-------------------------------	---	----	---	-------------------

Sut caiff pensiwn ei gyfrifo yn FPS 2015?

Cynllun Enillion Ailbrisedig Cyfartaledd Gyrfa (CARE) yw FPS 2015. Caiff pensiynau eu gweithio allan ar sail cyfran o gyflog am bob blwyddyn o aelodaeth, a'i hychwanegu at eich cyfrif pensiwn.

Mae pensiwn FPS 2015 yn cronni flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda swm yn cael ei ychwanegu at eich cyfrif wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

Gwasanaeth pensiynadwy	/	61.4	=	Pensiwn a ychwanegwyd at eich cyfrif am y flwyddyn
------------------------	---	------	---	--

Yna, ar 1 Ebrill bob blwyddyn, caiff y pensiwn cronodig ei ailbrasio yn unol ag enillion wythnosol cyfartalog nes ymddeol. Darperir enghraifft (gan ddefnyddio'r gyfradd cronni o 1/59.7 ar gyfer y cynllun yn Lloegr) er gwybodaeth yn fpsmember.org/fps-2015/how-my-pension-worked-out

Enghraifft 1

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos yr hawl i pensiwn blynyddol a'r cyfandaliad arian parod mwyaf i aelod sy'n aros ar lefel diffoddwr tân drwy gydol ei yrfa. Mae'n dangos y buddion sydd ar gael o 55 oed (pan fo'r aelod yn gallu cymryd ei fuddion FPS 2007 ac FPS 2015 am y tro cyntaf) nes bydd yn 60 oed (pan ellir cymryd yr un buddion heb eu lleihau).

Mae'r enghreifftiau'n rhagdybio'r canlynol:

- Mae'r aelod yn dewis cyfnewid y pensiwn mwyaf posibl am arian parod ar adeg ymddeol.
- Mae'r cynnydd cyflog i'r aelod a'r cynnydd ailbriso ar gyfer pensiwn FPS 2015 yr un fath(1.5% p.a.).
- Mae'r gyfradd gronni ar gyfer FPS 2015 yn aros ar 1/61.4.
- Mae'r ffactorau ymddeol yng nghynlluniau FPS 2007 ac FPS 2015 fel y maent ar ddyddiad cyhoeddi'r ohebiaeth hon.

Oedran ymddeol rhag-dybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)		Buddion diwygiedig (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)	
		Pensiwn blynyddol £	Cyfandaliad arian parod £	Pensiwn blynyddol £	Cyfandaliad arian parod £
55	FPS 2007	4,467	17,870	2,383	9,531
55	FPS 2015	6,552	26,208	9,610	38,439
55	Cyfanswm	11,019	44,078	11,992	47,969
60	FPS 2007	8,008	32,031	4,271	17,083
60	FPS 2015	10,434	41,735	14,085	56,342
60	Cyfanswm	18,442	73,766	18,356	73,425

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn psmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgrynnu.

Symiau pensiwn blynyddol

- Mae cyfanswm symiau'r pensiwn os dewisir y buddion diwygiedig yn fwy nag os dewisir y buddion gwaddol ymhob oedran ymddeol hyd at 60 oed .
Y prif reswm dros hyn yw bod yr opsiwn gwaddol yn cynnwys cyfran uwch o fuddion FPS 2007, sydd â mwy o ostyngiad ymddeoliad cynnar.
Fodd bynnag, yn 60 oed, nid oes gostyngiadau ymddeoliad cynnar wedi cael eu cymhwyso, ac mae'r buddion gwaddol fymryn yn uwch oherwydd bod gan FPS 2007 gyfradd fymryn yn gynt o gronni buddion (1/60 v 1/61.4).
- I aelodau gweithredol, yr oedran ymddeol arferol ar gyfer cynlluniau FPS 2007 ac FPS 2015 yw 60 oed, felly os bydd yr aelod yn ymddeol cyn hynny bydd ei bensiwn yn cael ei ostwng i adlewyrchu'r ffaith y bydd yn cael ei dalu am fwy o amser na'r disgwyl.
- Fodd bynnag, i ymddeol yn gynnar yn FPS 2007 bydd rhaid i chi adael y gwasanaeth yn gyntaf er mwyn bod yn aelod gohiriedig ac yna bydd eich buddion yn cael eu lleihau mewn perthynas â'r oedran ymddeol gohiriedig arferol, sef 65. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad mwy o faint yn FPS 2015 gan fod y gostyngiad yn seiliedig ar yr aelod yn cael pensiwn am gyfnod hirach o amser cyn yr oedran ymddeol arferol.
- Yn 60 oed, mae'r pensiwn a'r cyfandaliadau arian parod yn debyg iawn oherwydd nad oes gan gynlluniau FPS 2007 a FPS 2015 bellach unrhyw ostyngiadau ymddeol yn gynnar.

Symiau cyfandaliad arian parod

- Yn yr enghraifft, mae symiau'r cyfandaliad yn dilyn yr un patrwm â symiau'r pensiwn. Y rheswm am hyn yw bod yr un swm o gyfandaliad yn cael ei dderbyn am bob £1 o pensiwn a gyfnewidir.
- Y ffactor cyfnewid ar gyfer FPS 2007 ac FPS 2015 yw 12. Felly, am bob £1 o pensiwn blynyddol a gaiff ei ildio, bydd yr aelod yn derbyn £12 fel swm cyfandaliad.

Cyfraniadau'r gweithiwr

Wrth ddewis y buddion gwaddol neu'r buddion diwygiedig, mae'n bosibl y bydd cyfraniadau ychwanegol yn daladwy gan yr aelod, neu ad-daliad efallai, gan ddibynnu ar y gwahaniaeth rhwng y cyfraniadau a dalwyd eisoes a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r buddion a ddewisir.

Amgylchiadau unigol

Yn y rhan fwyaf o achosion cyn 60 oed, byddai'r opsiwn diwygiedig ar gyfer cyn-aelodau o FPS 2007 yn darparu buddion uwch na'r opsiwn gwaddol. Fodd bynnag, dylid nodi bod eich dewis ynghylch derbyn buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig am gyfnod y rhwymedi yn dibynnu'n fawr ar eich amgylchiadau unigol.

Enghraifft 2

Mae'r enghraifft hon yn seiliedig ar yr un meini prawf â'r enghraifft flaenorol ond mae'n rhagdybio bod yr aelod yn cael ei ddirchafu yn ystod cyfnod y rhwymedi a hyd at ei ymddeoliad. Pwrpas hyn yw dangos yr effeithiau y gall cynyddiadau mewn cyflog dyrchafol eu cael ar y gwahaniaeth rhwng buddion gwaddol a buddion diwygiedig.

Rydym wedi rhagdybio y bydd Diffoddwr Tân (cymwys) ar 1 Ebrill 2015 yn derbyn y dyrchafiadau canlynol a'r cynyddiadau ychwanegol i'w gyflog:

Swydd	Dyddiad dyrchafiad	Oedran ar adeg dyrchafiad	Cynydd a gymhwyswyd
Rheolwr criw (datblygu)	1 Ebrill 2019	37	6.3%
Rheolwr criw (cymwys)	1 Ebrill 2021	39	4.3%
Rheolwr gwylfa (datblygu)	1 Ebrill 2026	44	2.2%
Rheolwr gwylfa (cymwys A)	1 Ebrill 2028	46	2.8%
Rheolwr gwylfa (cymwys B)	1 Ebrill 2031	49	6.5%

Mae'r pensiwn FPS 2015 a enillir yn cynyddu bob blwyddyn yn unol ag enillion wythnosol cyfartalog. Gallai'r modd y mae cyflog yr aelod yn cynyddu o gymharu ag enillion wythnosol cyfartalog bennu pa opsiwn sy'n darparu'r buddion uchaf. Er enghraifft, er symlrwydd, rydym wedi cadw'r cyflog pensiynadwy cyfartalog ar gyfer FPS 2007 a'r cyflog pensiynadwy ar gyfer FPS 2015 yr un fath er gwybodaeth. Fodd bynnag, os yw'r enillion wythnosol cyfartalog yn uwch na'r cynnydd yn y cyflog yn yr un cyfnod, gallai'r opsiwn diwygiedig ddarparu mwy o fuddion na'r opsiwn gwaddol ar gyfer pob oedran ymddeol. Neu, petai'r cynnydd cyflog yn uwch na'r enillion wythnosol cyfartalog gallai'r opsiwn gwaddol ddarparu buddion uwch.

Dangosir hyn yn enghraifft 2 isod.

Mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod amseriad y cynyddiadau yn bwysig. Mae'n bosibl na fyddai cynyddiadau canrannol mawr i pensiwn FPS 2015 pan fo'n gymharol fach yn gwrthbwysu'r cynnydd yn FPS 2007 yn sgil cynnydd mawr yn y cyflog. Er enghraifft, gallai cynnydd dyrchafu mawr yn agos at ymddeoliad arwain at gynnydd mawr i pensiwn cyflog terfynol FPS 2007 ac felly, gallai'r opsiwn buddion gwaddol fod yn fwy deniadol.

Byddwch yn derbyn enghreifftiau o fuddion ar gyfer eich buddion gwaddol a'ch buddion diwygiedig ar adeg ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr opsiwn mwyaf buddiol ar adeg pan fyddwch chi'n fwyaf sicr ynghylch beth mae gennych hawl iddo.

Gan ddefnyddio'r cynnydd dyrchafu uchod, rhoddir yr enghreifftiau o fuddion wedi'u hailbrisio isod:

Oedran ymddeol rhag-dybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)		Buddion diwygiedig (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)	
		Pensiwn blynyddol £	Cyfundaliad arian parod £	Pensiwn blynyddol £	Cyfundaliad arian parod £
55	FPS 2007	5,538	22,154	2,954	11,815
55	FPS 2015	7,701	30,804	10,861	43,444
55	Cyfanswm	13,240	52,958	13,815	55,259
60	FPS 2007	9,928	39,710	5,295	21,179
60	FPS 2015	12,431	49,725	16,205	64,821
60	Cyfanswm	22,359	89,436	21,500	86,000

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn fpsmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgrynnu.

Symiau pensiwn blynyddol

Fel y disgwylir, mae'r buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig yn uwch nag yn yr enghraifft flaenorol gyda'r cynnydd dyrchafu ychwanegol.

- Mae'r buddion diwygiedig yn dal yn uwch ymhob oedran ymddeol hyd at 60 oed gan nad yw'r cynnydd cyflog dyrchafu yn ddigon i wrthbwysu'r gostyngiadau ymddeoliad cynnar uwch yn FPS 2007.
- Mae'r buddion gwaddol nawr yn fwy fyth na'r buddion diwygiedig yn 60 oed. Y rheswm dros hyn yw bod buddion FPS 2007 yn seiliedig ar y cyflog terfynol ar adeg ymddeol ac mae'r cynnyddiau dyrchafu wedi cynyddu'r buddion hyn yn gynt na buddion FPS 2015.

Fel cynllun cyflog terfynol, mae FPS 2007 yn trin yr aelod fel pe bai wedi ennill y cyflog terfynol uwch ymhob blwyddyn o wasanaeth. Fodd bynnag, mae FPS 2015 yn ystyried cyflogau a enillwyd yn unrhyw flwyddyn benodol a dim ond ar flynyddoedd y dyfodol yr effeithir pan fo cynnydd mewn cyflog dyrchafu.

Symiau cyfundaliad arian parod

Mae'r cyfundaliadau arian parod o dan y ddau opsiwn wedi cynyddu fel y disgwylir er bod cyfundaliad arian parod yr opsiwn gwaddol nawr yn uwch yn 60 oed gan fod swm pensiwn uwch ar gael i'w gyfnewid am arian parod.

Amgylchiadau unigol

Nid yw'r dewis rhwng buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig ar gyfer cyn-aelodau FPS 2007 yn glir a bydd yn dibynnu'n fawr ar eich llwybr gyrfa chi eich hun a sut mae eich cynyddiadau cyflog yn cymharu â chynyddiadau ailbrisio FPS 2015 (sy'n cyd-fynd ag enillion wythnosol cyfartalog).

Fel y gwelir yn yr enghreifftiau uchod, gallai'r buddion diwygiedig ddarparu pensiwn blynyddol a chyfundaliad arian parod uwch i'r rhai sy'n dewis ymddeol cyn 60 oed, tra gallai'r buddion gwaddol fod yn fwy deniadol os bydd yr aelod yn ymddeol yn 60 oed neu'n cael cynyddiadau cyflog uwch, yn enwedig yn ddiweddarach yn ei yrfa.

Byddwch yn derbyn enghreifftiau o fuddion ar gyfer y buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig ar adeg ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr opsiwn mwyaf buddiol ar adeg pan fyddwch yn fwyaf sicr ynghylch beth y mae gennych hawl iddo.



4. FPS 2007 – aelod rhan amser / wrth gefn

Manylion proffil aelod enghreifftiol:

Proffil aelod	
Dyddiad geni	31 Mawrth 1982
Oedran ar 31 Mawrth 2022	40 oed
Cynllun cyflog terfynol blaenorol	FPS 2007
Oedran ymuno â'r cynllun	25 oed
Gwasanaeth pensiynadwy ar 31 Mawrth 2022	4.5 mlynedd
Cyflog ar 31 Mawrth 2015	£29,000
Cyflog yn 55 oed	£39,645
Cyflog yn 60 oed	£42,709
Llawn amser neu ran amser	Rhan amser
Oriau rhan amser	30%

Sut caiff pensiwn ei gyfrifo yn FPS 2007?

Cynllun cyflog terfynol yw FPS 2007. Caiff pensiynau eu gweithio allan ar sail aelodaeth o gynllun, cyflog a fformiwla sydd wedi'i gynnwys yn rheolau'r cynllun. Caiff pensiwn FPS 2007 ei gyfrifo fel a ganlyn:

Gwasanaeth pensiynadwy	X	Cyflog Pensiynadwy Cyfartalog	/	60	=	Pensiwn blynyddol
------------------------	---	-------------------------------	---	----	---	-------------------

I aelodau rhan amser, mae'r elfen ran amser yn cael ei chofnodi yn y gwasanaeth pensiynadwy, a defnyddir y cyflog cyfwerth â llawn amser fel cyflog pensiynadwy cyfartalog. Er enghraifft, os bydd aelod yn gweithio 30% dros 10 mlynedd bydd yn ennill 3 blynedd o wasanaeth pensiynadwy.

Sut caiff pensiwn ei gyfrifo yn FPS 2015?

Cynllun Enillion Ailbrisedig Cyfartaledd Gyrfa (CARE) yw FPS 2015. Caiff pensiynau eu gweithio allan ar sail cyfran o gyflog am bob blwyddyn o aelodaeth, a'i hychwanegu at eich cyfrif pensiwn.

Mae pensiwn FPS 2015 yn cronni flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda swm yn cael ei ychwanegu at eich pensiwn wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

Cyflog Pensiynadwy	/	61.4	=	Pensiwn a ychwanegwyd at eich cyfrif am y flwyddyn
--------------------	---	------	---	--

Yna, ar 1 Ebrill bob blwyddyn, caiff y pensiwn cronedig ei ailbrasio yn unol â'r enillion wythnosol cyfartalog hyd nes ymddeol. Darperir enghraifft (gan ddefnyddio'r gyfradd gronni o 1/59.7 ar gyfer y cynllun yn Lloegr) er gwybodaeth yn fpsmember.org/fps-2015/how-my-pension-worked-out

Yn FPS 2015, mae'r cyflog pensiynadwy eisoes yn cynnwys yr addasiad ar gyfer gweithwyr rhan amser. Er enghraifft, os yw cyflog yr aelod yn £29,000 ac mae'n gweithio 30% o'r amser, y pensiwn a enillir yn y flwyddyn honno yw £29,000 x 0.30 / 61.4 = £141.69.

Enghraifft 1

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos yr hawl i'r pensiwn blynyddol a'r cyfandaliad arian parod mwyaf i aelod rhan amser sy'n aros ar lefel diffoddwr tân drwy gydol ei yrfa. Mae'n dangos yr hawl i bensiwn blynyddol a'r cyfandaliad arian parod yn 55 oed (pan fo'r aelod yn gallu cymryd ei fuddion FPS 2007 a FPS 2015 am y tro cyntaf) nes bydd yn 60 oed (pan ellir cymryd yr un buddion heb eu lleihau).

Mae'r enghreifftiau'n rhagdybio'r canlynol:

- Mae oriau rhan amser yr aelod yn aros ar 30% drwy'r amser.
- Mae'r aelod yn dewis cyfnewid y pensiwn mwyaf posibl am arian parod ar adeg ymddeol.
- Mae'r cynnydd cyflog i'r aelod a'r cynnydd ailbriso ar gyfer pensiwn FPS 2015 yr un fath (1.5% p.a.).
- Mae'r gyfradd Gronni ar gyfer FPS 2015 yn aros ar 1/61.4.
- Mae'r ffactorau ymddeol yng nghynlluniau FPS 2007 ac FPS 2015 fel y maent ar ddyddiad cyhoeddi'r ohebiaeth hon.

Oedran ymddeol rhagdybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion CARE 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)		Buddion diwygiedig (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion CARE 2015 o 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)	
		Pensiwn blynyddol £	Cyfandaliad arian parod £	Pensiwn blynyddol £	Cyfandaliad arian parod £
55	FPS 2007	1,340	5,361	715	2,859
55	FPS 2015	1,966	7,862	2,883	11,532
55	Cyfanswm	3,306	13,223	3,598	14,391
60	FPS 2007	2,402	9,609	1,281	5,125
60	FPS 2015	3,130	12,520	4,226	16,903
60	Cyfanswm	5,532	22,130	5,507	22,028

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn fpsmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgrynnu.

Symiau pensiwn blynyddol

- Mae cyfanswm symiau'r pensiwn os dewisir y buddion diwygiedig yn fwy nag os dewisir y buddion gwaddol ymhob oedran ymddeol hyd at 60 oed.
Y prif reswm dros hyn yw bod yr opsiwn gwaddol yn cynnwys cyfran uwch o fuddion FPS 2007, sydd â mwy o ostyngiad ymddeoliad cynnar.
Fodd bynnag, yn 60 oed, ni chymhwysir unrhyw ostyngiadau ymddeoliad cynnar, ac mae'r buddion gwaddol fymryn yn uwch gan fod gan FPS 2007 gyfradd fymryn yn gynt o Gronni buddion (1/60 v 1/61.4).
- I aelodau gweithredol, yr oedran ymddeol arferol ar gyfer cynlluniau FPS 2007 ac FPS 2015 yw 60 oed, felly os bydd yr aelod yn ymddeol cyn hynny bydd ei bensiwn yn cael ei lleihau i adlewyrchu'r ffaith y bydd yn cael ei dalu am fwy o amser na'r disgwyl.
- Fodd bynnag, i ymddeol yn gynnar yn FPS 2007 bydd rhaid i chi adael y gwasanaeth yn gyntaf er mwyn bod yn aelod gohiriedig ac yna bydd eich buddion yn cael eu lleihau mewn perthynas â'r oedran ymddeol gohiriedig arferol, sef 65. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad mwy o faint yn FPS 2015 gan fod y gostyngiad yn seiliedig ar yr aelod yn cael pensiwn am gyfnod hirach o amser cyn yr oedran ymddeol arferol.
- Yn 60 oed, mae'r pensiwn a'r cyfandaliadau arian parod yn debyg iawn oherwydd nad oes gan gynlluniau FPS 2007 a FPS 2015 bellach unrhyw ostyngiadau ymddeol yn gynnar.

Symiau cyfandaliad arian parod

- Yn yr enghraifft, mae'r cyfandaliadau arian parod yn dilyn yr un patrwm â symiau'r pensiwn. Y rheswm dros hyn yw bod yr un swm o gyfandaliad yn cael ei dderbyn o dan bob opsiwn am bob £1 o bensiwn a gaiff ei gyfnewid.
- Y ffactor cyfnewid ar gyfer FPS 2007 ac FPS 2015 yw 12. Mae hyn yn golygu am bob £1 o bensiwn blynyddol sy'n cael ei ildio, bydd yr aelod yn derbyn £12 fel cyfandaliad arian parod.

Cyfraniadau'r gweithiwr

Wrth ddewis y buddion gwaddol neu'r buddion diwygiedig, mae'n bosibl fod cyfraniadau ychwanegol yn daladwy gan yr aelod, neu ad-daliad efallai, yn dibynnu ar y gwahaniaeth rhwng y cyfraniadau a dalwyd eisoes a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r buddion a ddewisir.

Amgylchiadau unigol

Yn y rhan fwyaf o achosion cyn 60 oed, mae'r opsiwn diwygiedig ar gyfer cyn-aelodau o FPS 2007 yn darparu buddion uwch na'r opsiwn gwaddol. Fodd bynnag, dylid nodi bod eich dewis ynghylch derbyn buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig am gyfnod y rhwymedi yn dibynnu'n fawr ar eich amgylchiadau unigol .

Caiff y pensiwn FPS 2015 a enillir ei gynyddu yn unol â'r enillion wythnosol cyfartalog. Mae'n bosibl fod sut mae cyflog aelod yn cynyddu yn cymharu ag enillion wythnosol cyfartalog yn pennu pa opsiwn sy'n darparu'r buddion uchaf. Er enghraifft, er symlrwydd rydym wedi cadw'r cyflog pensiynadwy cyfartalog ar gyfer FPS 1992 a'r cyflog pensiynadwy ar gyfer FPS 2015 yr un fath ar gyfer yr enghraifft hon. Er enghraifft, os yw'r enillion wythnosol cyfartalog yn uwch na'r cynyddiadau cyflog am yr un cyfnod, mae'n bosibl fod yr opsiwn diwygiedig yn darparu mwy o fuddion na'r opsiwn gwaddol ymhob oedran ymddeol. Neu, petai'r cynyddiadau cyflog yn uwch na'r enillion wythnosol cyfartalog gallai'r opsiwn gwaddol ddarparu buddion uwch.

Dangosir hyn yn enghraifft 2 isod.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod amseriad y cynyddiadau yn bwysig. Mae'n bosibl na fydd rhai cynyddiadau canrannol mawr i bensiwn FPS 2015 pan fo'n gymharol fach yn gwrthbwysu'r cynnydd yn FPS 2007 yn sgil cynnydd mawr i'r cyflog. Er enghraifft, gallai cynnydd dyrchafu mawr yn agos at ymddeoliad arwain at gynnydd mawr i bensiwn cyflog terfynol FPS 2007 ac felly, gallai buddion yr opsiwn gwaddol fod yn fwy deniadol.

Byddwch yn derbyn enghreifftiau o fuddion ar gyfer y buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig ar adeg ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr opsiwn mwyaf buddiol ar adeg pan fyddwch chi'n fwyaf sicr ynghylch beth mae gennych hawl iddo.

Enghraifft 2

Mae'r enghraifft hon yn seiliedig ar yr un meini prawf â'r enghraifft flaenorol ond mae'n rhagdybio bod yr aelod yn cael ei dyrchafu dros gyfnod y rhwymedi a hyd at ei ymddeoliad. Pwrpas hyn yw dangos yr effaith y gall cynyddiadau cyflog dyrchafu ei chael ar y gwahaniaeth rhwng buddion gwaddol a buddion diwygiedig.

Rydym wedi rhagdybio y bydd Diffoddwr Tân (cymwys) yn 1 Ebrill 2015 yn derbyn y dyrchafiadau canlynol a'r cynyddiadau ychwanegol i'w gyflog:

Swydd	Dyddiad dyrchafiad	Oedran ar adeg dyrchafiad	Cynnydd a gymhwyswyd
Rheolwr criw (datblygu)	1 Ebrill 2019	37	6.3%
Rheolwr criw (cymwys)	1 Ebrill 2021	39	4.3%
Rheolwr gwylfa (datblygu)	1 Ebrill 2026	44	2.2%
Rheolwr gwylfa (cymwys A)	1 Ebrill 2028	46	2.8%
Rheolwr gwylfa (cymwys B)	1 Ebrill 2031	49	6.5%

Gan ddefnyddio'r cynnydd dyrchafu uchod, rhoddir yr enghreifftiau o fuddion wedi'u hailbrisio isod:

Oedran ymddeol rhag-dybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)		Buddion diwygiedig (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)	
		Pensiwn blynyddol £	Cyfundaliad arian parod £	Pensiwn blynyddol £	Cyfundaliad arian parod £
55	FPS 2007	1,662	6,646	886	3,545
55	FPS 2015	2,310	9,241	3,258	13,033
55	Cyfanswm	3,972	15,887	4,144	16,578
60	FPS 2007	2,978	11,913	1,588	6,354
60	FPS 2015	3,729	14,918	4,862	19,446
60	Cyfanswm	6,708	26,831	6,450	25,800

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn fpsmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgrynnu.

Symiau pensiwn blynyddol

Fel y disgwylir, mae'r buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig yn uwch nag yn yr enghraifft flaenorol gyda'r cynyddiadau dyrchafu ychwanegol.

- Mae'r buddion diwygiedig yn dal yn uwch ymhob oedran ymddeol hyd at 60 oed gan nad oedd y cynyddiadau cyflog dyrchafu yn ddigon i wrthbwysu'r gostyngiadau ymddeoliad cynnar yn FPS 2007.
- Mae'r buddion gwaddol nawr yn fwy fyth na'r buddion diwygiedig yn 60 oed. Y rheswm dros hyn yw bod buddion FPS 2007 yn seiliedig ar gyflog terfynol ar adeg ymddeol ac mae'r cynyddiadau dyrchafu wedi cynyddu'r buddion hyn yn gynt na buddion FPS 2015.

Fel cynllun cyflog terfynol, mae FPS 2007 yn trin yr aelod fel pe bai wedi ennill y cyflog terfynol uchaf ymhob blwyddyn o wasanaeth. Fodd bynnag, mae FPS 2015 yn ystyried cyflogau a enillir mewn unrhyw flwyddyn benodol a dim ond ar flynyddoedd y dyfodol yr effeithir os bydd cynnydd dyrchafu yn y cyflog.

Symiau cyfundaliad arian parod

Mae'r cyfundaliadau arian parod o dan y ddau opsiwn wedi cynyddu fel y disgwylir er bod cyfundaliad arian parod yr opsiwn gwaddol bellach yn fwy yn 60 oed gan fod swm pensiwn mwy o faint ar gael i'w gyfnewid am arian parod.

Amgylchiadau unigol

Nid yw'r dewis rhwng buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig ar gyfer cyn-aelodau FPS 2007 yn glir, a bydd yn dibynnu'n fawr ar eich llwybr gyrfa chi eich hun a sut mae eich cynyddiadau cyflog yn cymharu â chynyddiadau ailbrisio FPS 2015 (sy'n cyd-fynd ag enillion wythnosol cyfartalog).

Fel y gwelir yn yr enghreifftiau uchod, gallai'r buddion diwygiedig ddarparu pensiwn blynyddol a chyfundaliad arian parod uwch i'r rhai sy'n dewis ymddeol cyn 60 oed, tra gallai'r buddion gwaddol fod yn fwy deniadol os bydd yr aelod yn ymddeol yn 60 oed neu'n cael cynyddiadau cyflog uwch, yn enwedig yn ddiweddarach yn ei yrfa.

Byddwch yn derbyn enghreifftiau o fuddion ar gyfer y buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig ar adeg ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr opsiwn mwyaf buddiol ar adeg pan fyddwch chi'n fwyaf sicr ynghylch beth mae gennych hawl iddo.



5. FPS 2007 i aelodau arbennig (RDS addasedig)

Manylion proffil aelod enghreifftiol:

Proffil aelod

Dyddiad geni	31 Mawrth 1977
Oedran ar 31 Mawrth 2022	45 oed
Cynllun cyflog terfynol blaenorol	Aelodau arbennig yn FPS 2007
Oedran ymuno â'r cynllun	25 oed
Gwasanaeth pensiynadwy ar 31 Mawrth 2022	6 mlynedd
Cyflog ar 31 Mawrth 2015	£29,000
Cyflog yn 55 oed	£36,801
Cyflog yn 60 oed	£39,645
Llawn amser neu ran amser	Rhan amser
Oriau rhan amser	30%

Sut caiff pensiwn i aelodau arbennig ei gyfrifo yn FPS 2007?

Cynllun cyflog terfynol yw'r cynllun i aelodau arbennig yn FPS 2007. Caiff pensiynau eu gweithio allan ar sail aelodaeth o gynllun, cyflog a fformiwla sydd wedi'i gynnwys yn rheolau'r cynllun. Caiff pensiwn FPS 2007 i aelodau arbennig ei gyfrifo fel a ganlyn:

$$\text{Gwasanaeth pensiynadwy} \times \text{Cyflog Pensiynadwy Cyfartalog} / 45 = \text{Pensiwn blynyddol}$$

Ar gyfer aelodau rhan amser, caiff yr elfen ran amser ei chofnodi yn y gwasanaeth pensiynadwy, a defnyddir y cyflog cyfwerth â llawn amser fel cyflog pensiynadwy cyfartalog. Er enghraifft, os bydd aelod yn gweithio 30% dros 10 mlynedd, bydd yn ennill 3 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy.

Sut caiff pensiwn ei gyfrifo yn FPS 2015?

Cynllun Enillion Ailbrisedig Cyfartaledd Gyrfa (CARE) yw FPS 2015. Caiff pensiynau eu gweithio allan yn seiliedig ar gyfran o gyflog am bob blwyddyn o aelodaeth, a'i hychwanegu at eich cyfrif pensiwn.

Mae pensiwn FPS 2015 yn cronni flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda swm yn cael ei ychwanegu at eich cyfrif wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

$$\text{Cyflog Pensiynadwy} / 61.4 = \text{Pensiwn a ychwanegwyd at eich cyfrif am y flwyddyn}$$

Yna, ar 1 Ebrill bob blwyddyn, caiff y pensiwn cronedig ei ailbrasio yn unol â'r enillion wythnosol cyfartalog hyd at ymddeoliad. Darperir enghraifft (gan ddefnyddio'r gyfradd gronni o 1/59.7 ar gyfer y cynllun yn Lloegr) er gwybodaeth yn fpsmember.org/fps-2015/how-my-pension-worked-out

Yn FPS 2015, mae'r cyflog pensiynadwy yn cynnwys addasiad ar gyfer gweithwyr rhan amser. Er enghraifft, os yw cyflog yr aelod yn £29,000 ac mae'n gweithio 30% o'r amser, y pensiwn a enillir yn y flwyddyn honno yw £29,000 x 0.3 / 61.4 = £141.69.

Enghraifft 1

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos yr hawl i bensiwn blynyddol ac uchafswm y cyfandaliad arian parod i aelod arbennig sy'n aros ar lefel diffoddwr tân drwy gydol ei yrfa. Mae'n dangos yr hawl i bensiwn blynyddol a chyfandaliad arian parod yn 55 oed (pan fo'r aelod arbennig yn gallu cymryd ei fuddion FPS 2007 ac FPS 2015 am y tro cyntaf) nes bydd yn 60 oed (pan ellir cymryd buddion FPS 2015 heb eu lleihau).

Mae'r enghreifftiau'n rhagdybio'r canlynol:

- Mae oriau rhan amser yr aelod yn aros ar 30% drwy gydol y cyfnod.
- Mae'r aelod arbennig yn dewis cyfnewid y pensiwn mwyaf posibl am arian parod pan mae'n ymddeol.
- Mae'r cynnydd cyflog i'r aelod a'r cynnydd ailbriso ar gyfer pensiwn FPS 2015 yr un fath (1.5% p.a.).
- Mae'r gyfradd Gronni ar gyfer FPS 2015 yn aros ar 1/61.4.
- Mae'r ffactorau ymddeoliad cynnar i FPS 2015 fel y maent ar ddyddiad cyhoeddi'r ohebiaeth hon.

Oedran ymddeol rhag-dybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)		Buddion diwygiedig (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)	
		Pensiwn blynyddol £	Cyfandaliad arian parod £	Pensiwn blynyddol £	Cyfandaliad arian parod £
55	FPS 2007*	3,680	25,515	2,392	16,585
55	FPS 2015	1,216	4,866	2,068	8,271
55	Cyfanswm	4,896	30,381	4,460	24,856
60	FPS 2007*	3,964	24,976	2,577	16,234
60	FPS 2015	2,179	8,717	3,196	12,784
60	Cyfanswm	6,144	33,693	5,773	29,019

*I aelodau arbennig

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn fpsmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgrynnu.

Symiau pensiwn blynyddol

- Yn yr enghraifft uchod, mae cyfanswm symiau'r pensiwn yn uwch os dewisir y buddion gwaddol nag os dewisir y buddion diwygiedig ymhob oedran ymddeol. Y rheswm dros hyn yw bod y symiau pensiwn gwaddol yn cynnwys cyfran uwch o fuddion aelodau arbennig FPS 2007, sy'n seiliedig ar gyfradd Gronni well, sy'n golygu bod mwy o fuddion pensiwn yn cael eu cronni am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy.
- Mae gan aelodau arbennig FPS 2007 oedran pensiwn arferol o 55 oed. Ni ellir cymryd buddion yn gynharach na hyn.
- Mae gan FPS 2015 oedran pensiwn arferol o 60 oed i aelodau gweithredol ac oedran Pensiwn Gwladol i aelodau gohiriedig. Os cymerir pensiwn FPS 2015 cyn oedran pensiwn arferol, caiff y pensiwn ei leihau i adlewyrchu'r ffaith y bydd yn cael ei dalu am fwy o amser na'r disgwyl.
- I aelodau gweithredol, caiff gostyngiad ymddeoliad cynnar o 10% ei gymhwyso i bensiwn FPS 2015 yn 55 oed. Caiff y gostyngiad ei leihau 2% bob blwyddyn hyd nes nad oes gostyngiad yn 60 oed. Gweler gov.wales/sites/default/files/publications/2020-01/w-frsc201918-annex-6.pdf i gael rhagor o wybodaeth. Mae'r ffactorau ymddeoliad cynnar i aelodau gohiriedig yn uwch.

Symiau cyfandaliad arian parod

- Yn yr enghraifft uchod, mae cyfandaliadau'r opsiwn gwaddol hefyd yn uwch na chyfandaliadau'r opsiwn diwygiedig ymhob oedran ymddeol a ddangosir. Mae dau brif reswm dros hyn:
- Mae mwy o'r pensiwn gwaddol i'w gyfnewid am gyfandaliad arian parod; ac
- Mae'r ffactorau cyfnewid ar gyfer aelodau arbennig FPS 2007 yn uwch, sy'n golygu bod yr aelod yn derbyn mwy o gyfandaliad arian parod am bob £1 o bensiwn blynyddol sy'n cael ei ildio. Er enghraifft, yn 55 oed, y ffactor cyfnewid sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer aelodau arbennig FPS 2007 yw 20.8 tra mai 12 yw ffactor cyfnewid FPS 2015. Mae hyn yn golygu bod yr aelod yn derbyn £20.80 o arian parod am bob £1 o bensiwn aelodau arbennig FPS 2007 sy'n cael ei ildio o gymharu â £12 o arian parod am bob £1 o bensiwn FPS 2015 sy'n cael ei ildio.
- Sylwch fod y ffactorau cyfnewid sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer aelodau arbennig o FPS 2007 yn gostwng wrth i'r aelod heneiddio (er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod disgwyl i'r pensiwn gael ei dalu am gyfnod byrrach o amser), ond mae'n aros yn 12 ar gyfer pob oedran yn FPS 2015.
- Nid yw'r enghreifftiau yn ystyried unrhyw dâl treth a allai fod yn gymwys am fynd y tu hwnt i derfyn CThEM ar arian di-dreth. Mae'r terfyn yn fwyaf tebygol o gael ei groesi os yw'r ffactor cyfnewid yn fwy na 20.
- I gael mwy o wybodaeth, ewch i fpsmember.org/fps-2007-special-members/how-much-lump-sum-can-i-take

Cyfraniadau'r gweithiwr

Wrth ddewis y buddion gwaddol neu'r buddion diwygiedig, mae'n bosibl fod cyfraniadau ychwanegol yn daladwy gan yr aelod, neu ad-daliad efallai, yn dibynnu ar y gwahaniaeth rhwng y cyfraniadau a dalwyd eisoes a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r buddion a ddewisir.

Amgylchiadau unigol

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r opsiwn gwaddol ar gyfer cyn-aelodau arbennig o FPS 2007 yn darparu buddion uwch na'r opsiwn diwygiedig. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd eich dewis ynghylch derbyn buddion gwaddol neu fuddion diwygiedig am gyfnod y rhwymedi yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol.

Er enghraifft, er symlrwydd, rydym wedi cadw'r cyflog pensiynadwy cyfartalog i aelodau arbennig FPS 2007 a chyflog pensiynadwy FPS 2015 yr un fath ar gyfer yr enghraifft hon o'r buddion, er fe allai eich cyflog pensiynadwy chi yn FPS 2015 gynnwys elfennau ychwanegol sy'n cyfrannu at bensiwn uwch.

At hynny, mae pensiwn FPS 2015 a enillwyd eisoes yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r enillion wythnosol cyfartalog. Os yw'r enillion wythnosol cyfartalog yn uwch na'r cynnydd cyflog dros gyfnod o amser, gallai hyn arwain at fuddion diwygiedig uwch. Er mwyn i hyn ddigwydd, byddai angen i aelod dderbyn cynnydd cyflog (gan gynnwys unrhyw gynnydd dyrchafu) sy'n is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol dros gyfnod hir o amser.

Os caiff aelod ei ddirchafu yn ystod cyfnod y rhwymedi a hyd at ymddeoliad, bydd unrhyw gynnydd yng nghyflog yr aelod yn cynyddu'r buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd unrhyw gynnydd dyrchafu yn tueddu i gynyddu'r buddion gwaddol yn fwy na'r buddion diwygiedig. Caiff hyn ei ddangos yn enghraifft 2 ar y dudalen nesaf.

Y rheswm dros hyn yw bod buddion aelodau arbennig FPS 2007 yn seiliedig ar gyflog terfynol ar adeg ymddeol. Fel cynllun cyflog terfynol, mae FPS 2007 yn trin yr aelod fel pe bai wedi ennill y cyflog terfynol uchaf ymhob blwyddyn o wasanaeth. Fodd bynnag, mae cynllun FPS 2015 yn ystyried cyflogau a enillwyd mewn unrhyw flwyddyn benodol a dim ond ar flynyddoedd y dyfodol yr effeithir pan fo cynnydd yn y cyflog dyrchafu.

Byddwch yn derbyn enghreifftiau o fuddion ar gyfer eich buddion gwaddol a buddion diwygiedig ar adeg ymddeol. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr opsiwn mwyaf buddiol ar adeg pan fyddwch chi'n fwyaf sicr ynghylch beth mae gennych hawl iddo.

Enghraifft 2

Mae'r enghraifft hon yn seiliedig ar yr un meini prawf â'r enghraifft flaenorol ond mae'n rhagdybio bod yr aelod enghreifftiol yn cael ei ddirchafu dros gyfnod y rhwymedi a hyd at ymddeoliad. Pwrpas hyn yw dangos yr effaith y gall cynnydd cyflog dyrchafu ei chael ar y gwahaniaeth rhwng y buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig.

Rydym wedi rhagdybio y bydd Diffoddwr Tân (cymwys) ar 1 Ebrill 2015 yn derbyn y dyrchafiadau canlynol a'r cynnydd ychwanegol i'w gyflog:

Swydd	Dyddiad dyrchafiad	Oedran ar adeg dyrchafu	Cynnydd a gymhwyswyd
Rheolwr criw (datblygu)	1 Ebrill 2019	42	6.3%
Rheolwr criw (cymwys)	1 Ebrill 2021	44	4.3%
Rheolwr gwylfa (datblygu)	1 Ebrill 2026	49	2.2%
Rheolwr gwylfa (cymwys A)	1 Ebrill 2028	51	2.8%
Rheolwr gwylfa (cymwys B)	1 Ebrill 2031	54	6.5%

Gan ddefnyddio'r cynnydd dyrchafu uchod, rhoddir yr enghreifftiau o fuddion wedi'u hailbrisio isod:

Oedran ymddeol rhag-dybiedig	Cynllun	Buddion gwaddol (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2022 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2022 hyd at ymddeoliad)		Buddion diwygiedig (Buddion FPS 2007 hyd at 31 Mawrth 2015 a buddion FPS 2015 o 1 Ebrill 2015 hyd at ymddeoliad)	
		Pensiwn blynyddol £	Cyfundaliad arian parod £	Pensiwn blynyddol £	Cyfundaliad arian parod £
55	FPS 2007*	4,562	31,632	2,965	20,561
55	FPS 2015	1,391	5,562	2,271	9,082
55	Cyfanswm	5,953	37,194	5,236	29,643
60	FPS 2007*	4,915	30,964	3,195	20,126
60	FPS 2015	2,561	10,245	3,612	14,449
60	Cyfanswm	7,476	41,209	6,807	34,576

*I aelodau arbennig

Mae'r cyfrifiadau manwl a ddefnyddiwyd i gael y ffigyrau hyn ar gael yn fpmember.org/2015-Remedy-benefit-illustrations-full-calculations-fps-wales. Mae'n bosibl fod rhai gwahaniaethau wrth dalgrynnu.

Symiau pensiwn blynyddol

Fel y disgwylir, mae'r buddion gwaddol a'r buddion diwygiedig yn uwch nag yn yr enghraifft flaenorol gyda'r cynnydd dyrchafu ychwanegol.

Fodd bynnag, mae cyfanswm y symiau pensiwn os dewisir yr opsiwn gwaddol wedi dangos mwy o gynnydd yn y buddion na'r opsiwn diwygiedig. Y rheswm dros hyn yw bod buddion cynllun arbennig FPS 2007 yn seiliedig ar gyflog terfynol ar adeg ymddeol a bod y cynnydd dyrchafu wedi gwrthbwysu'r cronni cyflymach o bensiwn yn FPS 2015.

Fel cynllun cyflog terfynol, mae cynllun aelodau arbennig FPS 2007 yn trin yr aelod fel pe bai'n ennill y cyflog terfynol uchaf ymhob blwyddyn o wasanaeth.

Fodd bynnag, mae FPS 2015 yn ystyried y cyflogau a enillir ymhob blwyddyn benodol a dim ond ar flynyddoedd y dyfodol yr effeithir pan fo cynnydd yn y cyflog dyrchafu.

Symiau cyfandaliad arian parod

Mae'r cyfandaliadau arian parod gwaddol wedi cynyddu'n gynt na'r cyfandaliadau arian parod diwygiedig oherwydd bod symiau pensiwn uwch ar gael i'w cyfnewid am arian parod a ffactorau cyfnewid uwch.

Amgylchiadau unigol

Bydd effaith cynnydd dyrchafu yn dibynnu ar eich llwybr gyrfa eich hun, a hynny o ran nifer y dyrchafiadau a phryd maent yn digwydd. Mae'n fwy na thebyg y bydd unrhyw gynnydd dyrchafu yn tueddu i gynyddu buddion gwaddol yn fwy na buddion diwygiedig am y rhesymau a roddir uchod.

